



GWEITHGAREDDAU Â THYWYSYDD

Taith yr Aur Du

Uchafbwynt pob ymweliad â Thaith Pyllau Glo Cymru yw cael eich arwain gan gyn-lowyr sydd wrth eu bodd yn rhannu eu hatgofion a'u straeon personol.

Rhowch helmed ar eich pen a dechreuwch eich taith yn y tai injan sydd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar. Dewch i gwrdd â rhai o'r cymeriadau a oedd yn gyfrifol am ffurfio'r diwydiant glo, yna teithiwch "dan ddaear" i brofi'r amodau tywyll a pheryglus roedd dynion a bechgyn yn gweithio ynddyn nhw.

Darganfyddwch sut roedd yr "aur du" a gafodd ei gloddio o'r dirwedd yn pweru llongau a diwydiannau'r byd cyn cael tro ar DRAM! Profiad sinematig lle rydych chi'n reidio'r dram olaf o lo at wyneb y pwll – daliwch eich gafael yn dynn!

Cyfnod Allweddol: Pob oedran

Gwybodaeth Ychwanegol

Ysgolion RhCT: £4.50 y plentyn

Ysgolion y tu allan i RCT: £5.40 y plentyn

1 oedolyn am bob 10 plentyn am ddim; £5.95 am bob oedolyn ychwanegol

Diwrnod Golchi Mrs Thomas

Dysgwch am y gwahaniaethau rhwng ein hoes ni ac Oes Fictoria

Camau Cynnydd: Blynyddoedd Cynnar - Cam Cynnydd 2

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Gwybodaeth Ychwanegol

Ysgolion RhCT: £32 y sesiwn

Ysgolion y tu allan i RCT: £40 y sesiwn

Craft of Hearts

Jo yw'r artist preswyl yng nghanolfan celf a chrefft yr amgueddfa, sy'n cynnig gweithgareddau a gweithdai ar gyfer pob oedran. Dyma gyfle gwych i greu rhywbeth i'w gymryd adref ar ddiwedd y dydd.

Cam Cynnydd: Pob un

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Lles
- Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau

Gwybodaeth Ychwanegol

£5.00 y plentyn

GWEITHGAREDDAU HUNAN-ARWEINIAD

Llwybr Oriolau'r Amgueddfa

Gwisgwch fel cymeriad o hanes a defnyddiwch ein taflenni gwaith i archwilio'r oriolau. Darganfyddwch sut y gwnaeth mwyngloddio glo lwyddo i lywio ein byd. Astudiwch a rhyfeddwch ar arteffactau hanesyddol, camwch yn ôl mewn amser ym mwthyn y glöwr ac eisteddwch yn ein capel wrth i chi archwilio ein llinell amser ryngweithiol.

Cam Cynnydd: Pob un

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Iechyd a Lles

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae modd cael taflenni gwaith Llwybr Oriolau'r Amgueddfa am 5c yr un neu mae modd eu hargraffu AM DDIM yn eich ysgolion.

Glo: O'r Rhondda i'r Titanic

Ysgrifennwch eich stori chi eich hun yn seiliedig ar eich ymweliad – defnyddiwch eich hoff arteffact neu gymeriad hanesyddol yn ysbrydoliaeth neu dychmygwch ddiwrnod ym mywyd glöwr.

Camau Cynnydd: 2/3

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegiannol

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae modd cael taflenni gwaith Llwybr Oriolau'r Amgueddfa am 5c yr un neu mae modd eu hargraffu AM DDIM yn eich ysgolion.



GWEITHGAREDDAU Â THYWYSYDD NEU HUNAN-ARWEINIAD

Ysgol RhCT heb dywysydd: £8.40 y sesiwn

Ysgol y tu allan i RCT heb dywysydd: £10.50 y sesiwn

Ysgol RhCT gyda thywysydd: £32 y sesiwn

Ysgol y tu allan i RCT gyda thywysydd: £40 y sesiwn

Taith Gerdded ar Lwybr y Dramffordd

Dros 200 mlynedd yn ôl, adeiladodd Richard Griffiths ffordd dramiau a oedd yn cysylltu pyllau glo Cwm Rhondda â'r cefnfor. Archwiliwch sut mae daeareg a chymunedau'r cymoedd wedi siapio ein byd heddiw.

Cam Cynnydd: 2/3

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Gwyddonwyr Glo

Ffurfiwyd glo 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Yn fwy diweddar, cafodd ei gludo i bedwar ban byd! Dewch yn wyddonydd glo a darganfyddwch ffeithiau hynod ddiddorol i chi eich hun.

Cam Cynnydd: 2/3

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Mathemateg a Rhifedd

Tyrau Tal

Gwnewch astrolab i fesur uchder ein simnai eiconig.

Camau Cynnydd: 2/3

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Mathemateg a Rhifedd
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Tirluniau Cwm Rhondda

Mae ein tirwedd yn ysbrydoledig! Archwiliwch yr arddulliau sydd wedi'u defnyddio gan artistiaid lleol a dehongli eu perthynas nhw â'r cwm, a chreu eich celf eich hun.

Cam Cynnydd: 2/3

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles

Portreadau o Bobl Cwm Rhondda

Archwiliwch gelf trwy liwiau, lleoliadau a golau, a lluniwch eich hunanbortread eich hun.

Cam Cynnydd: 2/3

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles

Gwneud Helmed Glöwr

Defnyddiwch siapiau a chymesuredd i wneud helmed – peidiwch ag anghofio mynd ag ef adref gyda chi!

Camau Cynnydd: 1/2/3

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol
- Mathemateg a Rhifedd

Blychau o Arteffactau

Dadbaciwch hanes gyda'n blychau o arteffactau anhygoel, wedi'u llenwi ag eitemau hynod ddiddorol o'r gorffennol. Mae pecyn adnoddau ar gael i athrawon a thafenni gwaith ar gyfer dysgwyr ym mhob blwch.

Ysgol RhCT: £8.40 ar y safle a 5c y plentyn ar gyfer taflenni gwaith wedi'u hargraffu

Ysgol y tu allan i RCT: £10.50 ar y safle a 5c y plentyn ar gyfer taflenni gwaith wedi'u hargraffu

Ysgol RhCT: £8 yr wythnos neu £40 yr hanner tymor

Ysgol y tu allan i RCT: £10 yr wythnos neu £50 yr hanner tymor

Rydyn ni bob amser yn ychwanegu cynnwys newydd i'n bocsys o arteffactau ac mae modd i ni greu bocsys unigryw sy'n berthnasol i'ch pwnc chi. Yn berffaith er mwyn cyflawni gwaith trawsgwricwlaidd, cyfunwch y Dyniaethau ag Iechyd a Lles!

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

Y BLYCHAU

- Cwrdd â'r Rhufeiniaid
- Cyfnod y Tuduriaid
- Cartref Oes Fictoria
- Ysgol Oes Fictoria
- Diwrnod Mr Thomas (mwyngloddio)
- Y Rhyfel Byd Cyntaf
- Yr Ail Ryfel Byd